Powys Saffach - Crynodeb am Blismona Lleol 2006/07

Buddsoddwyr mewn pobl

Cyflwyniad

Dyma'r ail Grynodeb o Blismona Lleol gan Heddlu Dyfed Powys a'i nod yw rhoi gwybodaeth i chi, ein cwsmeriaid, ar sut y mae'r heddlu wedi bod yn perfformio. Rydym wedi newid cynllun y daflen oherwydd rydym am sicrhau fod pawb sy'n derbyn gwasanaeth yr heddlu yn derbyn y wybodaeth sydd ei hangen arnynt ac sydd ganddynt hawl i'w derbyn.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael, gobeithio y dewch i'r casgliad fod Heddlu Dyfed Powys yn parhau i fod ymhlith y goreuon yng Nghymru a Lloegr a'i fod yn cyflawni'r disgwyliadau o ran y materion hynny sy'n bwysig i bobl leol. Mae'r arwyddair 'Diogelu ein Cymuned' wrth galon popeth a wnawn, a byddwn yn gweithio gyda chi i sicrhau fod y rhan arbennig iawn hon o'r byd yn parhau i fod yr ardal ddiogelaf yn y wlad.

Andy Edwards - Prif Gwnstabl Dros Dro
Alasdair Kenwright - Cadeirydd, Awdurdod yr Heddlu

Sut Rydych chi'n cael eich Plismona

Rhennir yr Heddlu yn bedair Uned Rheoli Sylfaenol sy'n cyd-ffinio ag ardaloedd y cynghorau sir, sef Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Rhennir yr unedau hyn yn adrannau gyda Thîm Plismona Bro yn gweithredu ymhob un. I ddarganfod mwy am blismona a swyddogion eich bro chi, ewch i'n gwefan, sydd wedi cael ei gweddnewid, ar www.dyfed-powys.police.uk.

Sut Rydym ni'n Cymharu ag Eraill?

Mae'r tabl isod yn dangos sut rydym yn cymharu â heddluoedd eraill mewn rhai meysydd plismona allweddol:

	Perfformiad 2006/07	Safle yng Nghymru a Lloegr
Ofn Troseddau		
Risg o ddioddef trosedd yn erbyn y cartref	11%	Isaf
Risg o ddioddef trosedd yn erbyn y person	3%	Isaf
Ofn troseddau treisgar	8%	3ydd Isaf
Troseddau		
Cyfanswm Troseddau a Gofnodwyd	60 fesul 1,000 poblogaeth	Isaf
Byrgleriaeth Ddomestig	4 fesul 1,000 cartref	Isaf
Lladrad arall	11 fesul 1,000 poblogaeth	Isaf
Troseddau Ceir	4 fesul 1,000 poblogaeth	Isaf

Ceir darlun tebyg yn sgil asesiadau diweddaraf Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi. Rhaid cofio wrth edrych ar yr asesiadau isod mai gradd 'gweddol' yw'r safon o wasanaeth y byddai'r Arolygiaeth yn ei ddisgwyl ar gyfer y swyddogaeth benodol honno.

Maes Perfformiad - 2005-06	Darpariaeth	Cyfeiriad
Taclo Troseddu	Ardderchog	Sefydlog
Troseddau Difrifol a Diogelu'r Cyhoedd	Gweddol	Amherthnasol
Diogelu Pobl Fregus	Ardderchog	Amherthnasol
Bodlonrwydd a Thegwch	Da	Sefydlog
Cyflwyno Adnoddau Plismona Bro a Blaenoriaethau Effeithlonrwydd Lleol	Gweddol	Amherthnasol
Defnyddio Adnoddau	Ardderchog	Wedi Gwella
Plismona Lleol	Da	Amherthnasol

Sut Gwnaethon Ni Berfformio yn 2006/07

Gosododd yr Ysgrifennydd Cartref bum blaenoriaeth ar gyfer pob heddlu yn 2006/07. Gweler isod ein perfformiad mewn perthynas â'r rheiny.

Gostwng Troseddu'n Gyffredinol – Mae'r Heddlu wedi rhagori ar y gostyngiad o 7% mewn troseddu a gyrhaeddodd yn ystod 2005/06 trwy sicrhau gostyngiad pellach o 0.4%. Mae lefelau troseddu ardal yr Heddlu yn parhau i fod yr isaf ar draws Cymru a Lloegr.

Dod â Mwy o Droseddau ger bron Llys – Erbyn diwedd y cyfnod roedd yr Heddlu 27% yn well na'r targed ar gyfer dod â throseddau ger bron y llys (yn seiliedig ar y sylfaen a bennwyd yn 2002). Llwyddwyd i ddwyn 46% o droseddau ger bron llys o'i gymharu â'r ail orau ymhlith ein Heddluoedd Cyffelyb, sef Suffolk oedd ar 34%.

Darparu Timau Plismona Bro ym mhob Ardal – Erbyn Ebrill 2007, roedd Timau Plismona Bro, yn cynnwys swyddogion a staff heddlu penodol, wedi eu cyflwyno ar draws yr Heddlu. Yn sgil y gostyngiad yn nifer y PCSOs o'r 157 gwreiddiol i 74, bu rhaid ailystyried eu dosbarthiad, ond llwyddwyd i wneud hynny'n foddhaol.

Troseddau Difrifol a Throseddau ar Raddfa Fawr – Yn ffodus, mae'r math hwn o droseddu yn brin yn yr ardal hon, ond mae'r Heddlu wedi bod yn cydweithio'n agos gyda Heddluoedd De Cymru a Gwent dan faner Ymgyrch Tarian i fynd i'r afael â'r broblem ble bynnag y mae'n bodoli. Mae'r gwaith hwn yn dal i fynd yn ei flaen ac mae'r ffaith ei fod wedi bod yn ganolbwynt arolygon cenedlaethol gan Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi yn dyst i'w bwysigrwydd.

Terfysgaeth ac Eithafiaeth Ddomestig – Ar ddiwedd 2006, cynhaliodd yr Heddlu yr ymarfer gwrthderfysgaeth fwyaf a welwyd yng Nghymru erioed, yn cynnwys y llywodraeth, gwasanaethau arbennig, y lluoedd arfog a phartneriaid eraill. Mae'r Heddlu hefyd wedi chwarae rhan bwysig wrth blismona'r gwaith o adeiladu lein beipiau LNG ar draws de Cymru, ynghyd â'r gwrthdystiadau cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd Awdurdod yr Heddlu wedi gosod pedair blaenoriaeth ar gyfer yr Heddlu yn 2006/07, a hynny ar sail ymgynghoriad manwl ac eang â'r cyhoedd; a'r rheiny oedd:

Cyffuriau Dosbarth A – Gwelwyd cynnydd o 78 i 82 yng nghyfanswm y troseddwyr a gyhuddwyd o farchnata Cyffuriau Dosbarth A ac aeth nifer y troseddau hynny a arweiniodd at euogfarn neu rybudd, neu a gafodd eu cymryd i ystyriaeth gan y llys, i fyny o 56 i 65.

Troseddau Treisgar – Cododd y raddfa ddatrys ar gyfer troseddau treisgar o 54.6% i 59.9% a chafwyd gostyngiad o 856 lawr i 744 yn nifer y bobl a ddioddefodd drais yn y cartref ar fwy nag un achlysur.

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – Aeth nifer y digwyddiadau a riportiwyd i fyny o 25,621 i 29,355. Gellir priodoli hyn yn bennaf i'r ffaith ein bod wedi cyflwyno'r Safon Genedlaethol Cofnodi Digwyddiadau yn llawn. Mae'r system gofnodi hon yn rhoi darlun cywirach o'r lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond mae'r Heddlu a'r Awdurdod yn derbyn bod angen gwneud mwy o waith eto yn y maes hwn.

Terfysgaeth ac Eithafiaeth – Cyfeirir at y maes hwn dan flaenoriaethau'r Ysgrifennydd Cartref.

Yn sgil ymgynghoriad pellach, penderfynodd yr Awdurdod gadw'r blaenoriaethau uchod ar gyfer 2007/08 yn unol â barn y cyhoedd. Bydd adroddiad am ein perfformiad yn erbyn y blaenoriaethau hyn ar gael yn y Cynllun Plismona Blynyddol (fydd ar gael ar ein gwefan neu o'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol o'r 30ain Mehefin 2008) ac yn y cyhoeddiad hwn y flwyddyn nesaf. Bydd mwy o wybodaeth am droseddu yn eich ardal chi ar gael ar Wefan yr Heddlu o fis Gorffennaf 2008.

Perfformiad ym Mhowys

Sut Rydym ni wedi Perfformio yn eich Dalgylch Chi

Yn ogystal â'r blaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau'r heddlu, fe fydd eich swyddogion lleol wedi canolbwyntio ar faterion eraill yn 2006/07, a bydd rhai o'r rheiny yn benodol i'ch ardal chi. Gweler isod grynodeb o'r materion hyn a sut rydym wedi delio â nhw.

Cyffuriau Dosbarth A - Rhwng Ebrill 2006 a Mawrth 2007 gwelwyd gostyngiad o 5, lawr o 11 i 6, yn nifer y troseddwyr yn yr Uned Reoli Sylfaenol (URS) a gyhuddwyd o farchnata cyffuriau Dosbarth A.

Troseddau Treisgar - Cafwyd gostyngiad o 15.1% (neu 33 trosedd) yng nghyfanswm y troseddau treisgar yn yr URS yn ystod y flwyddyn. Dros yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad o 46 (6%) yn nifer yr achosion o drais yn y cartref a gostyngiad o 6% (61 trosedd) o ran trais sy'n gysylltiedig ag yfed alcohol. Y sbardun ar gyfer y gwelliannau hyn oedd adolygiad mawr i'r ffordd yr oedd yr URS yn delio â throseddau treisgar, ac yna mynd ati'n ddyfal i weithredu'r casgliadau.

Byrgleriaeth - Cafwyd cynnydd o 10 (5.8%) byrgleriaeth ddomestig yn ystod y flwyddyn ariannol ac roedd y raddfa ddatrys sancsiwn gyffredinol yn 24.2%. Bu gostyngiad o 4.1% (15 trosedd) mewn mathau eraill o fyrgleriaeth, er roedd y raddfa ddatrys ar gyfer y byrgleriaethau hyn yn 11.9% yn unig, o'i gymharu â chyfartaledd o 22.3% ar draws yr Heddlu.

Troseddau Traws-ffiniol (Troseddwyr Symudol) - Mae troseddau traws-ffiniol a throseddwyr symudol yn dal yn broblemau mawr i'r Uned Reoli Sylfaenol, ond gwnaed ymdrech sylweddol, a gwneir ymdrech ymhellach yn y dyfodol, i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Mae'r gyd-fenter gyda Heddlu Gorllewin Mersia i ddelio â digwyddiadau yn ardal Trefyclo wedi bod yn llwyddiant mawr, a defnyddiwyd System Awtomatig Adnabod Rhifau Ceir yn effeithiol i dargedu troseddwyr sy'n dod i mewn i Bowys i gyflawni troseddau.

Gwrthdrawiadau Traffig y Ffyrdd - Rhoddwyd sylw arbennig i'r maes hwn o fewn y sir, gydag ymgyrchoedd gorfodi ac addysgu rheolaidd yn cael eu cynnal i geisio lleihau nifer y marwolaethau ac anafiadau difrifol ar ein ffyrdd.

Os hoffech wybod mwy am waith Heddlu Dyfed Powys neu os ydych am leisio eich barn am y gwasanaeth a ddarperir gennym, ewch i'n gwefan www.dyfed-powys.police.uk, neu e-bostiwch corpserv@dyfed-powys.pnn.police.uk. Os nad oes gennych gyfleusterau rhyngrwyd, ffoniwch ni ar ein rhif

Rhifau Ffôn Defnyddiol

Rhif Di-frys yr Heddlu
0845 330 2000

Cymorth i Ddioddefwyr Dyfed
0845 303 0900

Crimestoppers Cymru
0800 555 111

Y Samariaid
08457 909 090

Llinell Gymorth Cam-drin yn y Cartref Cymru
0808 901 0800

Cam-drin yn y Cartref - Llinell Gymorth Genedlaethol 24awr
0808 2000 247

Llinell Gymorth Cyffuriau Genedlaethol
0800 77 66 00

Llinell gymorth gyfrinachol i ddisgyblion, rhieni a staff ysgolion sy'n pryderu am gyffuriau mewn ysgolion
0345 366666

Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (Cymru)
0845 6048810

Llinell Gymorth Mewnfudo
02920 433983